Perchennog / Meddiannydd
Ffordd Trebanog
Cymer
Porth

**Gofynnwch am/Please Ask For:** Dylan Kelleher **Rhif Ffôn / Telephone:** Dd/B

**Fy Nghyf/ My Ref:** IF262/ DK/ TO **Eich Cyf/ Your Ref:** **Dyddiad/ Date:** 21af Mai 2025

Annwyl Berchennog/Feddiannydd,

**Ffordd Trebanog (A4233), Cymer, Porth**
**Cynnig i gyflwyno Croesfan newydd i Gerddwyr (Croesfan Pâl)**

Mae'r Cyngor yn cynnig cyflwyno Croesfan Pâl ar ran o'r A4233, Ffordd Trebanog i gefnogi gweithgarwch corfforol a lles ac annog unigolion i fanteisio ar y cyfleoedd teithio llesol yn yr ardal ehangach.

Bydd cyflwyno croesfan newydd i gerddwyr ar Ffordd Trebanog yn gwella'r trefniadau sydd ar waith ar y briffordd ar hyn o bryd yn y lleoliad yma, gan wella cysylltedd i gerddwyr a dysgwyr a diogelwch ar y ffyrdd yn y gymuned ehangach yn ogystal â hyrwyddo teithio llesol.

Mae manylion y cynlluniau arfaethedig i'w gweld yn y llun **2025UK415831-WSP-66-XX-DR-C-001** sydd ynghlwm wrth y llythyr yma. Yn ogystal â hynny, mae modd eu gweld nhw ar ein gwefan: **www.rctcbc.gov.uk/traffig**.

Rydw i wedi amgáu ffurflen ymateb ynghyd ag amlen barod er hwylustod i chi. Fel arall, mae croeso i chi anfon neges e-bost i gwasanaethautraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk. Hoffwn dderbyn eich sylwadau erbyn 11eg Mehefin 2025.

Os na fyddwch chi wedi cyflwyno ymateb erbyn hynny, bydda i'n ei chymryd hi'n ganiataol nad ydych chi'n gwrthwynebu'r cynigion.

Fydd y Cyngor ddim yn ymateb yn ffurfiol i'ch sylwadau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd eich sylwadau yn cyfrannu at y gwaith dylunio a fydd yn cael ei gynnal cyn y cam nesaf yn rhan o'r prosiect, sef yr Hysbysiad Cyhoeddus ffurfiol.

**Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth**
**Highways, Streetcare and Transportation**
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Ffôn/Tel: 01443 425001

**Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIOB**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Director for Highways, Streetcare and Transportation Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth, ond os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod. Fel arall, os hoffech chi drafod y materion yma dros y ffôn, e-bostiwch **gwasanaethautraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk** i drefnu galwad**.**

Yn gywir,

Dylan Kelleher BEng (Anrh.), EngTech MICE
Blaen Swyddog | Principal Officer
Uned Rheoli Traffig | Traffic Management

Owner / Occupier
Trebanog Road
Cymmer
Porth

**Gofynnwch Am/ Please Ask For:** Dylan Kelleher **Ffon/Telephone:** N/A

**Fy Nghyf/ My Ref:** IF262/ DK/ TO
**Eich Cyf/ Your Ref:**
**Dyddiad/ Date:** 21st May 2025

Dear Owner/Occupier

**Trebanog Road (A4233), Cymmer, Porth**
**Proposed New Pedestrian Crossing (Type Puffin)**

The Council is proposing to introduce a Puffin Crossing on a section of the A4233, Trebanog Road to support physical activity, well-being and encourage active travel participation in the wider area.

A new pedestrian crossing on Trebanog Road will enhance the existing highway arrangement at this location, improving pedestrian and learner connectivity and road safety in the wider community and support the promotion of active journeys.

Details of the proposals are shown on the attached drawing **2025UK415831-WSP-66-XX-DR-C-001** which may also be viewed at **www.rctcbc.gov.uk/traffic**.

For your convenience, a response form and a postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively, you may wish to respond by e-mail to **trafficservices@rctcbc.gov.uk**. Responses should be returned with your observations by 11th June 2025.

If there is no response by that date, it shall be assumed that you have no comment to make on the proposals.

The Council will make no formal response to your comments at this stage. However your comments will advise the design prior to the next stage of the project, which will be formal Public Notice.

I trust the above is of assistance, however if you require any further information, please do not hesitate to contact me via the above email address or alternatively should you wish to discuss these matters over the telephone, requests for a call back should be made by email to **trafficservices@rctcbc.gov.uk**.

Yours faithfully,

D. Kelleher

Dylan Kelleher BEng (Hons.) EngTech MICE
Prif Swyddog | Principal Officer
Uned Rheoli Traffig | Traffic Management